# CYNGOR CYMUNED LLANSANTFFRAED
# LLANSANTFFRAED COMMUNITY COUNCIL

e-bost / e-mail: clerc.llansantffraed@btinternet.com

**Cofnodion o Gyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd am 7.30 pm ar nos Fawrth, 17eg Mai 2022 yn Festri Capel Siloh**

**Minutes of the Annual Meeting of the Council held at the Siloh Chapel Vestry at 7.30 pm on Tuesday, 17th May 2022**

Yn bresennol
Cadeirydd: Mr Phil Tomlins
Y Cynghorwyr Sheila Davies, Keith Henson, Hywel Llŷr Jenkins, Dennis Morgan, Andrew Phillip ac Aled Roberts
Clerc: Mr Denfer Morgan

Present
Chairman: Mr Phil Tomlins.
Councillors Sheila Davies, Keith Henson, Hywel Llŷr Jenkins, Dennis Morgan, Andrew Phillips and Aled Roberts
Clerk: Mr Denfer Morgan

**1 Trefn**

Dywedodd y Clerc fod Cadeirydd y Cyngor, y Cynghorydd Gwenno Piette, wedi ymddiheuro am fethu bod yn bresennol yng nghyfarfod heno. Esboniodd, yn dilyn penderfyniad y cyn-Gynghorydd Phil Tomlins i sefyll lawr fel Cynghorydd oherwydd afiechyd, cafodd yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Gwenno Piette, ei phenodi yn Gadeirydd am weddill y Flwyddyn Fwrdeistrefol blaenorol ac ni chafodd Is-gadeirydd ei benodi.

Gan hynny, esboniodd y Clerc fod Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn caniatau'r cyn-Gadeirydd, Mr Phil Tomlins, i weithredu fel Cadeirydd a dechrau'r Cyfarfod Blynyddol hon yn ffurfiol.

Estynnodd Mr Tomlins bawb i'r cyfarfod gan longyfarch yr Aelodau ar gael eu hethol.

Ar wahoddiad y Cadeirydd, fe gyflwynodd y Cynghorwyr Keith Henson a Hywel Llŷr Jenkins eu hunain i'w cyd-Aelodau.

Dywedodd y Clerc fod pob Aelod a oedd yn bresennol wedi arwyddo'r Datganiad o Ddderbyn Swydd.

**1 Procedure**

The Clerk stated that the Chairman of the Council, Councillor Gwenno Piette had apologised for her inability to attend tonight's meeting. He explained that, following the decision of the then Councillor Phil Tomlins to stand down as Chairman due to ill health, the then Vice-Chairman, Councillor Gwenno Piette had been appointed Chairman for the remainder of the previous Municipal Year and no Vice Chairman had been appointed at that time.

In this event, the Clerk explained that the Local Government Act 1972 allowed the former Chairman, Mr Phil Tomlins, to act as Chairman and formally commence this Annual Meeting.

Mr Tomlins welcomed everyone to the meeting and congratulated the Members on being elected.

At the invitation of the Chairman, Councillors Keith Henson and Hywel Llŷr Jenkins introduced themselves to their fellow Members.

The Clerk advised that all Members present had signed the Declaration of Acceptance of Office.

**2 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Lodwick Lloyd a Gwenno Piette am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**2 Apologies**

Councillors Lodwick Lloyd and Gwenno Piette apologised for their inability to attend the meeting.

**3 Ethol Cadeirydd**

Cynigiwyd ac eiliwyd yn ffurfiol a **PHENDERFYNWYD** yn unfrydol ethol y Cynghorydd Sheila Davies yn Gadeirydd y Cyngor ar gyfer Blwyddyn Bwrdeistrefol 2022-23. Fe lofnododd y Cynghorydd Davies y Datganiad o Dderbyn Swydd y Cadeirydd.

**3 Election of Chairman**

It was proposed and duly seconded and unanimously **RESOLVED** that Councillor Sheila Davies be elected Chairman of the Council for the 2022-2023 Municipal Year. Councillor Davies signed the Declaration of Acceptance of Office of Chairman.

**4 Ethol Is-gadeirydd**

Cynigiwyd ac eiliwyd yn ffurfiol a **PHENDERFYNWYD** yn unfrydol ethol y Cynghorydd Andrew Phillips yn Is-gadeirydd y Cyngor ar gyfer Blwyddyn Bwrdeistrefol 2022-23. Fe lofnododd y Cynghorydd Phillips y Datganiad o Dderbyn Swydd yr Is-gadeirydd.

**4 Election of Vice-Chairman**

It was proposed and duly seconded and unanimously **RESOLVED** that Councillor Andrew Phillips be elected Vice-Chairman of the Council for the 2022-2023 Municipal Year. Councillor Phillips signed the Declaration of Acceptance of Office of Vice Chairman.

**5 Penodi Archwilydd Mewnol**

**PENDERFYNWYD** penodi Mr Elfyn Jones yn Archwilydd Mewnol ar gyfer Cyfrifon Blynyddol 2021-22.

**5 Appointment of Internal Auditor**

It was **RESOLVED** to appoint Mr Elfyn Jones as Internal Auditor for the 2021-22 Annual Accounts.

**6 Penodi Arolygwyr Llwybrau**

**PENDERFYNWYD** penodi'r Cynghorwyr Dennis Morgan ac Andrew Phillips yn arolygwyr llwybrau ar gyfer 2022-23.

**6 Nomination of Footpath Inspectors**

It was **RESOLVED** that Councillors Dennis Morgan and Andrew Phillips be appointed the footpath inspectors for 2022-23.

**7 Cynrychiolaeth ar Gyrff Allanol**

**PENDERFYNWYD** penodi'r cynrychiolwyr canlynol:
Pwyllgor Neuadd Bentref a Chae Chwarae Llanon (1) – y Cynghorydd Hywel Llŷr Jenkins
Pwyllgor Ardal Ceredigion Un Llais Cymru (1) – y Cynghorydd Hywel Llŷr Jenkins
Pwyllgor Pwll Nofio Aberaeron a'r Cylch (1) – Mr Phil Tomlins
Corff Llywodraethol Ysgol Gynradd Gymunedol Llannon (1) – y Cynghorydd Gwenno Piette.

**7 Representation on Outside Bodies**

It was **RESOLVED** to appoint the following representatives:
Llanon Village Hall and Playing Fields Committee (1) – Councillor Hywel Llŷr Jenkins
Ceredigion Area Committee One Voice Wales (1) – Councillor Hywel Llŷr Jenkins
Aberaeron & District Swimming Pool and Recreation Committee (1) – Mr Phil Tomlins
Governing Body of Llannon Community Primary School (1) – Councilllor Gwenno Piette

**8 Polisïau**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo / adolygu'r canlynol:

a) Rheolau Sefydlog
b) Rheoliadau Cyllid
c) Cod Ymddygiad Aelodau
d) Cynllun Datrysiad Lleol
e) Polisi Cwynion

**8 Policies**

It was **RESOLVED** to approve / review the following:

a) Standing Orders
b) Financial Regulations
c) Members Code of Conduct
d) Local Resolution Policy
e) Complaints Policy

f) Cynllun Iaith Gymraeg
g) Cynllun Cyhoeddi
h) Polisi Preifatrwydd
i) Asesiad Risg
j) Cofrestr Asedau

**9 Cyfethol Aelodau i'r Cyngor**

Rhoddwyd ystyriaeth i Adroddiad y Clerc ar y drefn ar gyfer llenwi'r ddau le gwag ar y Cyngor. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r drefn gyfreithiol ar gyfer gyfethol Aelodau i'r Cyngor yn dilyn Etholiad. Cytunwyd ar y drefn canlynol:

- Cyhoeddi rhybudd ar 17eg Mai gan wahodd ceisiadau erbyn 3ydd Mehefin
- Cytuno'r ffurflen ar gyfer cyflwyno ceisiadau
- Ystyried y ceisiadau a dderbynir yng nghyfarfod 7fed Mehefin.

**10 Cynllun Taliadau Aelodau ar gyfer 2022-23**

Rhoddwyd ystyriaeth i argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol dyddiedig Chwefror 2022 a **PHENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Cynllun canlynol ar gyfer 2022-23:

*Lwfansau a gynhwysir yn y Cynllun*

Dyfarniad 43 – Costau gofal
Dyfarniad 44 – Taliad tuag at gostau a threuliau
Dyfarniad 46 – Costau teithio
Dyfarniad 47 – Taliad cynhaliaeth

*Lwfansau na chynhwysir yn y Cynllun*

Dyfarniad 45 – Taliad cyfrifoldebau penodol
Dyfarniad 48 – Lwfans colled ariannol
Dyfarniad 49 – Lwfans presenoldeb
Dyfarniad 50 – Taliad Pennaeth Dinesig
Dyfarniad 51 - Taliad Dirprwy Bennaeth Dinesig.

Daeth y cyfarfod i ben am 8:00 y.h.

f) Welsh Language Scheme
g) Publication Scheme
h) Privacy policy
i) Risk Assessment
j) Asset Register

**9 Co-option of Council Members**

Consideration was given to the Report of the Clerk on the procedure for filling the two vacancies on the Council. The report outlined the legislative procedure for co-opting Members to the Council following an Election. The following procedure was agreed:

- To publish a notice on 17th May inviting applications by 3rd June
- To agree the form for submitting applications
- To consider the applications received at the 7th June meeting.

**10 Members Payments Scheme for 2022-23**

Consideration was given to the recommendations of the Independent Remuneration Panel for Wales dated February 2022 and it was **RESOLVED** to adopt the following Scheme for 2022-23:

*Allowances Included in the Scheme*

Determination 43 – Care costs
Determination 44 – Payment towards costs and expenses
Determination 46 – Travel costs
Determination 47 – Subsistence payment

*Allowances Not Included in the Scheme*

Determination 45 – Specific responsibilities payment
Determination 48 – Financial loss allowance
Determination 49 – Attendance allowance
Determination 50 – Civic Head's payment
Determination 51 – Deputy Civic Head's payment.

The meeting concluded at 8:00 p.m.